

— EnBW



Partners in UK offshore wind

Fferm wynt ar y môr Mona

Ymgynghoriad anstatudol - Haf 2022
Llyfryn yr ymgynghoriad



Cynnwys

Rhagymadrodd	3
Ffermydd gwynt ar y môr Morgan a Mona	3
Pwysigrwydd ynni adnewyddadwy	3
Eich cyfle i gymryd rhan	3
Pwy yw EnBW a bp?	5
Gwybodaeth am EnBW	5
Gwybodaeth am bp	5
Proses prydlesu Ystâd y Goron	5
Pam mae angen ynni gwynt ar y môr arnom a sut mae'n gweithio	6
Y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd	6
Beth yw sero net?	6
Sut mae'r trydan yn mynd o'r fferm wynt i gartrefi a busnesau?	7
Gwybodaeth am Mona – ein seilwaith ar y tir	8
Pwynt rhyng-gysylltu	8
Yr is-orsaf ar y tir	8
Sut rydym yn dewis llwybr ceblau?	9
Dweud eich dweud	9
Sut byddwn yn defnyddio eich adborth?	9
Gwybodaeth am Mona – ein seilwaith ar y môr	10
Sut rydym yn adeiladu fferm wynt ar y môr	10
Aseidiadau amgylcheddol a thechnegol	11
Cefnogi'r economi leol, rhanbarthol a chenedlaethol	13
Swyddi	13
Cadwyn gyflenwi	13
Porthladdoedd a harbws	13
Sut i gymryd rhan	14
Dewch i gwrdd â'r tîm	14
Beth nesaf	15
Y broses ymgeisio	15



Os bydd angen llyfryn yr ymgynghoriad arnoch chi, neu unrhyw un o'n deunyddiau eraill, mewn fformat mwy hygyrch, cysylltwch â'n tîm dros e-bost info@morganandmona.com neu ffonio 0800 860 6263.

Ffermydd gwynt ar y môr Morgan a Mona

Mae EnBW Energie Baden-Württemberg AG a bp yn falch o fod yn arwain y gwaith o ddatblygu prosiectau Morgan a Mona. Bydd y ddwy fferm wynt ym Môr Iwerddon yn helpu'r DU i gyflawni ei huchelgais o gynhyrchu 50GW o bŵer gwynt ar y môr erbyn 2030.



Bydd y ffermydd gwynt oddeutu 20km - 30km o'r arfordir a byddant yn weithredol erbyn 2029. Gyda'i gilydd, byddant yn un o'r ffermydd gwynt mwyaf yn y byd, gyda chapasiti cynhyrchu cyfun o 3 gigawat (GW).

Mae hyn yn ddigon i bweru'r hyn sy'n cyfateb i tua 3.4 miliwn o gartrefi yn y DU â thrydan glân.

Pwysigrwydd ynni adnewyddadwy

Uchelgais y DU yw arwain y byd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a chroesawu dyfodol lle mae ynni adnewyddadwy yn pweru ein cartrefi a'n busnesau.

Yn ganolog i'r ymgyrch hon mae ymrwymiad i leihau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd y DU a chyrraedd sero net erbyn 2050.

Mae gan lywodraeth y DU uchelgais i gynhyrchu 50GW o ynni glân ac adnewyddadwy o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030.

Mae ffigurau a ryddhawyd gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn nhrydydd chwarter 2021 yn dangos bod gan y DU ychydig dros 10GW o gapasiti gwynt ar y môr wedi'i osod yn y DU ar hyn o bryd.

Mae cryn ffordd i fynd i gyrraedd y targed. Mae hyn yn golygu bod gan ein prosiectau Morgan a Mona rôl hollbwysig i'w chwarae – o ran helpu'r DU i gyflawni ei huchelgeisiau sero net ac, yn benodol, o ran cyrraedd ein nodau cynhyrchu ynni gwynt ar y môr.



Eich cyfle i gymryd rhan

Mae ein rownd gyntaf o ymgynghoriadau ar fferm wynt ar y môr Mona yn rhedeg am wyth wythnos, rhwng **7 Mehefin a 3 Awst 2022**. Nod yr ymgynghoriad yw cyflwyno ein prosiect, rhannu ein cynlluniau cynnar a rhoi cyfle i chi ddweud eich dweud.

Mae'r cynigion mewn cyfnod cynnar o'u datblygu gyda manylion pellach i ddilyn, fel maint a nifer y tyrbinau, y seilwaith ar y môr ac ar y tir, a lleoliad ar y tir ar gyfer y ceblau. Byddwn yn ystyried yr holl sylwadau a gawn, ochr yn ochr â gwneud rhagor o waith arolygu technegol ac amgylcheddol. Bydd eich adborth yn helpu i ddylanwadu ar ddyluniad manwl y prosiect ac yn ein helpu i ddatblygu'r cynigion gorau posibl.

Allwedd:

- Fferm wynt ar y môr Mona
- Fferm wynt ar y môr Morgan
- ▨ Ardal chwilio cwmpasu seilwaith ar y môr ar gyfer Mona
- ▨ Ardal chwilio cwmpasu seilwaith ar y môr ar gyfer Mona



Ar hyn o bryd rydyn ni'n bwrw ymlaen â'n cynlluniau ar gyfer fferm wynt ar y môr Morgan a byddwn ni'n cynnal ymgynghoriad yn nes ymlaen yn 2022.



Cyfarwyddwr y prosiect
Richard Haydock

“Mae’r prosiectau hyn yn nodi mynediad bp i un o farchnadoedd gwynt ar y môr prysuraf y byd ac rwyf wedi ymrwymo’n llwyr i wneud yn siŵr ein bod yn ei ddarparu mewn ffordd sy’n gweithio i bobl sy’n byw ac yn gweithio yn yr ardaloedd lle mae’r prosiectau hyn wedi’u lleoli.

Mae sicrhau ffynonellau ynni carbon isel o’r cartref yn hollbwysig, wrth gwrs, ond mae’r prosiect hwn hefyd yn ymwneud â buddsoddi yn y bobl, y busnesau a’r cymunedau ledled gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr.

Dyna pam ein bod wedi lansio porth cyflenwyr pwrpasol lle gall cwmnïau lleol baru eu sgiliau ag anghenion y prosiectau.

Mae ein cynigion ar gyfer Morgan a Mona yn dal i fod yn y dyddiau cymharol gynnar, felly dyma’r cyfle cyntaf i bobl gael gwybod am yr hyn rydyn ni’n ei gynllunio a dweud wrthym beth maen nhw’n ei feddwl.

Bydd eich adborth yn ein helpu i ddatblygu’r cynlluniau gorau posibl ac rwy’n edrych ymlaen at weithio gyda’r gymuned a’n partneriaid EnBW i ddatblygu Morgan a Mona.”



Cyfarwyddwr prosiect EnBW
Céline Combé

“Llwyddodd EnBW a bp ar y cyd mewn maes cystadleuol iawn o ymgeiswyr.

Ers i EnBW adeiladu fferm wynt gyntaf ar y môr yn yr Almaen yn 2010, rydym wedi dod yn chwaraewr pwysig ym maes technoleg ar y môr.

Rydym yn falch iawn o gyfrannu at ein profiad o ddatblygu a gweithredu prosiectau ynni gwynt ar y môr sy’n galw’n dechnegol i’n partneriaeth â bp.

Mae’r prosiectau ym Môr Iwerddon ymhlith y datblygiadau mwyaf mewn ynni gwynt ar y môr i’n cwmni, ac rydyn ni’n falch o gyfrannu’n sylweddol at ddyfodol o ynni cynaliadwy gyda’n gweithgareddau yn y DU.

Ar gyfer EnBW, bydd y buddsoddiad hwn yn gonglfaen yn ein strategaeth i fod yn niwtral o ran CO2 erbyn 2035. Dim ond drwy weithredu capasiti cynhyrchu adnewyddadwy ar raddfa fawr y gellir cyrraedd y targedau rhyngwladol ac Ewropeaidd i leihau’r ôl-troed CO2. Mae gwynt ar y môr yng Nghymru a Lloegr yn berffaith ar gyfer cyflawni’r nod hwn.

Rydyn ni’n annog y cymunedau lleol i ddod i’n hadnabod ac yn edrych ymlaen at gydweithio i wireddu’r prosiectau.”

Pwy yw EnBW a bp?

Gwybodaeth am EnBW

Mae EnBW Energie Baden-Württemberg AG yn un o'r cwmnïau cyflenwi ynni mwyaf yn yr Almaen ac mae'n cyflenwi trydan, nwy, dŵr ac atebion ynni a gwasanaethau'r diwydiant ynni i oddeutu 5.5 miliwn o gwsmeriaid.

Mae gennym weithlu o dros 23,000 o weithwyr. Bydd hanner portffolio cynhyrchu EnBW yn cynnwys ynni adnewyddadwy erbyn 2025.

Mae ehangu rhagor ar ynni adnewyddadwy yn yr Almaen a marchnadoedd Ewropeaidd dethol yn elfen ganolog o strategaeth twf EnBW. Ers dechrau ei drawsnewidiad corfforaethol yn 2013, mae EnBW wedi llwyddo i fuddsoddi bron i £5 biliwn yn ei segment ynni adnewyddadwy. Bydd tua €4 biliwn arall yn cael ei fuddsoddi erbyn 2025, yn bennaf drwy ehangu ynni'r gwynt a'r haul ymhellach, sy'n golygu y bydd 50 y cant o bortffolio cynhyrchu EnBW yn cynnwys ynni adnewyddadwy.

Roedd EnBW ymhlith yr arloeswyr ym maes ynni gwynt ar y môr gyda'i fferm wynt ar y môr, Baltig 1, ar y Môr Baltig. Ym mis Ionawr 2020, dechreuodd y cwmni weithredu prosiect pŵer gwynt ar y môr mwyaf yr Almaen, EnBW Hohe See ac Albatros, gyda chapasiti cyfun o 609 megawat (MW).

Bydd fferm wynt ar y môr He Dreht gyda chapasiti o tua 900MW yn cael ei chysylltu â'r grid yn 2025. Bydd He Dreht yn gweithredu heb unrhyw gymorthdaliadau gan y wladwriaeth.

Gwybodaeth am bp

Pwrpas bp yw aildychmygu ynni ar gyfer pobl a'n planed.

Mae bp wedi nodi uchelgais i fod yn gwmni sero net erbyn 2050, neu'n gynt, a helpu'r byd i gyrraedd sero net. Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi ein strategaeth ar gyfer gwireddu'r uchelgais honno.

Bydd y strategaeth hon yn trawsnewid bp o gwmni olew rhyngwladol sy'n cynhyrchu adnoddau – i gwmni ynni integredig sy'n darparu atebion i gwsmeriaid.

Mae gan bp fusnes gwynt sylweddol ar y tir yn UDA yn barod gyda chapasiti cynhyrchu gros o 1.7 GW, sy'n gweithredu naw ased gwynt ar draws y wlad.



Proses prydlesu Ystâd y Goron

Yn 2021, cyhoeddodd Ystâd y Goron ei bod wedi dewis chwe phrosiect gwynt ar y môr newydd arfaethedig yn y dyfroedd o amgylch Cymru a Lloegr, drwy broses Rownd 4 Prydlesu Gwynt ar y Môr.

Gyda'i gilydd, mae safleoedd Rownd 4 yn cynrychioli ychydig dan 8GW o gapasiti gwynt ar y môr newydd posibl, gan gynnig y cyfle i ddarparu trydan glân i dros saith miliwn o gartrefi a chreu cyfleoedd cyflogaeth ar draws y wlad.

Dewiswyd EnBW a bp gyda'i gilydd fel y cynigydd a ffefrir ar gyfer dwy les fawr ym Môr Iwerddon – dyma'r safleoedd a fydd yn dod yn ffermydd gwynt ar y môr Morgan a Mona.

Mae'r prydlesi mewn ardal sydd ag adnoddau gwynt cryf a dyfnderoedd dŵr bas.

Bydd y ffactorau hyn – a'u hagosrwydd at y lan, tua 20km-30km o'r arfordir – yn caniatáu ar gyfer datblygiad effeithlon a chost effeithiol.

Mae'r prydlesi'n ymestyn dros ardal o oddeutu 800km² a byddant yn para am 60 mlynedd. Bydd ein ffermydd gwynt yn dechrau gweithredu rhwng 2028 a 2029.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses prydlesu ar y môr ar gael ar wefan Ystâd y Goron www.thecrownestate.co.uk

Pam mae angen ynni gwynt ar y môr arnom a sut mae'n gweithio

Y frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd. Mae'n effeithio ar bob gwlad a rhaid i bob un ohonom chwarae rhan yn y frwydr.

Yn 2015, cyfarfu cynrychiolwyr o'r gymuned ryngwladol ym Mharis i gytuno ar ymateb byd-eang i'r newid yn yr hinsawdd. At ei gilydd, llofnododd 197 o siroedd Gytundeb Paris i sicrhau bod y cynnydd yn y tymheredd yn llawer llai na 1.50C er mwyn osgoi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd.

Cyfarfu'r cynrychiolwyr eto yn Glasgow yn 2021, lle'r oeddent yn cytuno bod angen mwy o weithredu i gyflawni'r nod o 1.5 0C ac roeddent yn addo i wneud y 2020au yn ddegawd o gefnogi a gweithredu ar newid yn yr hinsawdd.

Yn y DU, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gynlluniau uchelgeisiol a fydd yn rhoi'r wlad o flaen y gad yn y frwydr dros ddyfodol mwy gwyrdd.

Fel rhan o'r cynlluniau hyn, byddwn yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i ni newid y ffordd rydym yn gwresogi ein cartrefi, pweru ein cerbydau ac, yn bwysig iawn, y ffordd rydym yn cynhyrchu ein trydan.

Beth yw sero net?

Mae nwyon tŷ gwydr fel carbon deuocsid (CO2) a methan yn cael eu creu pan fyddwn yn llosgi tanwyddau ffosil, fel olew, nwy neu lo. Mae'r nwyon hyn wedi'u dal yn yr atmosffer ac maent yn achosi cynhesu byd-eang.

Mae cyflawni sero-net yn golygu peidio â chynyddu faint o nwyon tŷ gwydr sydd yn yr atmosffer. Y ffordd orau o wneud hyn yw symud at dechnolegau fel ynni adnewyddadwy, sydd ddim yn creu allyriadau niweidiol.

Polisiau Llywodraeth y DU a gwynt ar y môr

Mae'r ymrwymidiadau y mae'r DU wedi'u gwneud i gyflawni sero net wedi'u hymgorffori mewn cyfraith.

Er mwyn cyrraedd ein nodau hinsawdd, mae llywodraeth y DU wedi mabwysiadu nifer o strategaethau ar gyfer cyflawni sero net – yn fwyaf arbennig y cynllun 10-pwynt ar gyfer Chwyldro Diwydiannol Gwyrdd a'r Strategaeth Sero Net: Ailgodi'n Fwy Gwyrdd.

Yng Nghymru, y nod yw i ynni adnewyddadwy gynhyrchu 70 y cant o'r trydan sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru erbyn 2030. Mae hyn yn cael ei amlinellu gan Lywodraeth Cymru yn ei chynllun Sero Net.

Mae'r holl gynlluniau hyn yn cydnabod pwysigrwydd gwynt ar y môr o ran cyflawni nodau sero net yn y DU. Yn wir, 'hyrwyddo ynni gwynt ar y môr' yw pwynt un yng nghynllun 10 pwynt llywodraeth y DU. Mae'r DU eisoes yn arwain y byd ym maes gwynt ar y môr ac mae'r moroedd o amgylch Prydain yn ddelfrydol ar gyfer harneisio pŵer gwynt.

Mae'r DU eisoes yn cynhyrchu tua 10GW o'i phŵer o ynni gwynt ar y môr, sy'n fwy nag unrhyw wlad arall yn y byd. Mae'n chwarae rhan gynyddol bwysig yn ein cymysgedd ynni – am gyfnod ar 21 Mai 2021, roedd ynni gwynt ar y môr yn darparu 62 y cant o gyfanswm ein cynnyrch ynni. Ond mae angen i ni wneud llawer iawn mwy.

Er mwyn cyflawni ein nodau hinsawdd, mae angen i ni gynyddu faint o ynni gwynt ar y môr rydym yn ei gynhyrchu bedair gwaith – sy'n golygu gosod a gweithredu capasiti 50GW erbyn 2030.

Dyna pam mae prosiectau fel Morgan a Mona mor bwysig.

Beth rydym yn ei wneud

bp – Ym mis Chwefror 2020, nododd bp ein huchelgais i fod yn gwmni sero net erbyn 2050, neu'n gynt, a helpu'r byd i gyrraedd sero net. Caiff yr uchelgais hon ei chefnogi gan 10 nod: pump i'n helpu i ddod yn gwmni sero net a phump i helpu'r byd i gyrraedd sero net.


Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy chwilio 'bp yn cyflawni sero net' yn eich porwr rhyngwyrdd.

EnBW – Yn EnBW, mae ein llwyddiant busnes hirdymor yn seiliedig ar gyflawni targedau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Dan Strategaeth 2025 EnBW, rydym yn trawsnewid i fod yn ddarparwr seilwaith cynaliadwy ac arloesol. Mae gennym nod uchelgeisiol o leihau allyriadau CO2 y cwmni i sero-net erbyn 2035.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy chwilio 'Cynaliadwyedd yn EnBW' yn eich porwr rhyngwyrdd.

Allwedd:

- 1 Opsiynau o ran llwybrau ceblau
- 2 Opsiynau o ran glanfa
- 3 Opsiynau is-orsaf ar y tir
- 4 Pwynt Rhyng-gysylltu (POI) â'r 'grid cenedlaethol'
- A Arâe tyrbinau
- B Is-orsaf ar y môr



Sut mae'r trydan yn mynd o'r fferm wynt i gartrefi a busnesau?

Mae trydan sy'n cael ei gynhyrchu o'r fferm wynt ar y môr yn cael ei gludo i'r rhwydwaith trawsyrru trydanol cenedlaethol presennol - a elwir fel arfer yn 'grid cenedlaethol' – gan ddefnyddio ceblau.

Pan fyddan nhw ar y môr, mae'r ceblau hyn fel arfer yn rhedeg ar hyd gwely'r môr ac ar ôl iddyn nhw gyrraedd y lan maen nhw fel arfer yn cael eu claddu o dan y ddaear.

Yr enw ar y pwynt lle mae ceblau ar y môr a cheblau ar y tir yn cwrdd yw'r 'glanfa'.

Nesaf, mae angen cysylltiad â'r grid cenedlaethol. Yn dibynnu ar leoliad a dull y cysylltiad hwn, mae'n bosib y bydd angen rhywfaint o seilwaith uwchben y tir – fel trawsnewidydd neu is-orsaf.


Bydd y pŵer y bydd Morgan a Mona yn ei gynhyrchu yn mynd yn uniongyrchol i'r grid cenedlaethol; y 'pot' mawr o ynni sy'n cael ei ddsbarthu wedyn i'n cartrefi a'n busnesau ledled y DU.

i Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddarllen am y seilwaith ar y môr ac ar y tir rydym yn ei gynneg ar dudalennau 8-10.

Mae rhagor o wybodaeth am sut mae'r national grid yn gweithredu yn www.nationalgrideso.com/who-we-are

Gwybodaeth am Mona - ein seilwaith ar y tir



Er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal Mona, bydd angen cyfuniad o seilwaith ar y môr ac ar y tir arnom.

Bydd ein seilwaith ar y tir yn mynd â thrydan o bwynt glanio (lle mae'r ceblau ar y môr yn cyrraedd y lan) i'r 'grid cenedlaethol'. I wneud hyn, bydd angen i ni adeiladu seilwaith gan gynnwys ceblau tanddaearol ac is-orsaf newydd ar y tir.

Pwynt rhyng-gysylltu

Mae disgwyl i fferm wynt ar y môr Mona gysylltu â'r grid cenedlaethol mewn is-orsaf ger Bodelwyddan yn Sir Ddinbych.

Gelwir hyn yn bwynt cydgysylltu (POI) ac fe'i nodwyd drwy broses drylwyr o ddewis safle a gynhaliwyd gan y Grid Cenedlaethol, sy'n rheoli'r rhwydwaith trawsyrru trydan.

Yr is-orsaf ar y tir

Er mwyn cysylltu â'r rhwydwaith trawsyrru trydan, bydd angen i ni adeiladu is-orsaf newydd ar y tir, yn agos at is-orsaf bresennol Bodelwyddan.

Nid ydym wedi cyrraedd pwynt lle mae gennym gynllun manwl ar gyfer yr is-orsaf, ond mae'n debyg y bydd angen i'r ardal fod oddeutu 125,000 m², sydd yr un maint â thua


12 cae pêl-droed. Fel rhan o'n gwaith cynnar, rydyn ni wedi dod o hyd i ardal chwilio ar gyfer yr is-orsaf newydd ar y tir. Ar y cam hwn o'n prosiect, mae hwn yn ardal eang lle bydd yr is-orsaf newydd yn cael ei lleoli (gweler y map uchod). Byddwn yn ceisio lleoli'r is-orsaf mewn modd mor sensitif â phosib. Er enghraifft, byddwn yn ystyried pa mor agos yw cartrefi wrth asesu safleoedd posib ar gyfer ein his-orsaf.


Bydd rhagor o fanylion am yr is-orsaf arfaethedig ar gael yn hymgyngoriadau yn y dyfodol.


Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, hoffem i chi roi gwybod i ni am unrhyw beth a allai ein helpu i ddewis lleoliad ar gyfer yr is-orsaf, yn ogystal â dyluniad manwl ar ei chyfer.


Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth am ein seilwaith ar y môr, a sut rydym yn adeiladu fferm wynt ar y môr, ar dudalen 10.

Allwedd:

 Ardal chwilio sgopio (gwyrdd golau) – a oedd yn sail i'r gwaith datblygu cynnar i ganfod llwybrau ceblau a lleoliadau posibl ar gyfer is-orsaf

 Ardal chwilio is-orsaf ar y tir – ardal chwilio is-orsaf, lle gallm lleoli is-orsaf newydd.

 Ardaloedd chwilio coridor ceblau 300m o led (glas) - lle gallai ein ceblau tanddaearol gael eu llwybro.

 Is-orsaf Bodelwyddan (National Grid)

Mae map rhyngweithiol o'n cynigion ar gael ar ein gwefan



Sut rydym yn dewis llwybr ceblau?

Mae dewis llwybr cebl ar gyfer ein cebl tanddaearol ar y tir yn dasg gymhleth ac mae angen i ni ystyried nifer o wahanol ffactorau i wneud yn siŵr bod ein cynigion yn cynrychioli'r llwybr gorau posibl ar gyfer y prosiect a chymunedau lleol.

Er enghraifft, yn gyntaf mae angen i ni nodi a gwerthuso'r hyn a elwir yn 'gyfyngiadau'. Mae'r rhain yn feysydd y mae angen i ni eu hosgoi oherwydd na fyddai'n dechnegol ymarferol gosod cebl yn y lleoliad neu oherwydd bod rhywbeth yno'n barod y byddai angen i ni ei osgoi.

Gallai cyfyngiad ar y tir fod yn ardal drefol fawr neu'n nodwedd o ddiddordeb amgylcheddol. Mae ein harbenigwyr yn ystyried hyn i gyd er mwyn helpu i ddedhol y llwybrau gorau ac osgoi ardaloedd anaddas.

Ar gyfer ein prosiect, rydym hefyd yn defnyddio canllawiau a gyhoeddir gan sefydliadau arbenigol pwysig sy'n rhoi rhagor o gyngor ar yr hyn sydd angen ei ystyried wrth gynllunio llwybr ceblau. Mae'r rhain yn cynnwys Protocol Llwybr Ceblau Ystâd y Goron yn ogystal ag adnoddau tebyg gan gyrrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru.

Fel datblygwyr cyfrifol, rydym wedi ymrwymo i ddylunio llwybrau ceblau gan ystyried buddiannau gorau ein cymunedau. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn cynnig llwybrau cebl a fyddai'n achosi anhwylystod gormodol i bobl leol. Er enghraifft, mae ein timau wedi chwilio am llwybrau sydd ddim yn croesi ffyrdd, rheilffyrdd na llwybrau troed ac sy'n osgoi ardaloedd trefol cyn belled â phosib.

Drwy ein gwaith cynnar, rydym wedi dod o hyd i nifer o goridorau ceblau rhwng mannau glanio posib a'r POI. Byddem yn croesawu eich adborth ar y ffactorau rydych chi'n meddwl y dylem eu hystyried pan fyddwn yn mireinio ein llwybrau ceblau.

Dweud eich dweud

Er mwyn ein helpu i ddatblygu ein cynigion ymhellach, rydym yn gofyn am eich adborth ar ein cynlluniau cynnar.

Rydym yn cynnal llawer o'n hasesiadau technegol ac amgylcheddol ein hunain ond mae gan bobl sy'n byw yn agos at y cynigion wybodaeth leol y byddem ni wir yn ei gwerthfawrogi.

Gallai'r rhain gynnwys safbwyntiau am y canlynol:

- Cyfyngiadau amgylcheddol neu gymunedol posibl i lwybrau ceblau ar y tir neu ar y môr
- Cyfyngiadau amgylcheddol neu gymunedol posib a allai fod yn sail i leoliad ein his-orsaf
- Manteision cymunedol
- Gwybodaeth a allai ein helpu i gynllunio ar gyfer adeiladu
- Sut gallwn ni helpu i gefnogi swyddi (gweler tudalen 13 am ragor o wybodaeth)

Gallwch gael gwybod sut mae cymryd rhan yn ein hymgyngoriad, neu sut mae gofyn unrhyw gwestiynnau i ni, ar dudalen 14.

Sut byddwn yn defnyddio eich adborth?

Ar ôl i gam cyntaf yr ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r adborth rydym wedi'i gael, yn cynnal rhagor o asesiadau o'r effaith technegol ac yn gwneud gwaith dylunio i ddatblygu ein cynigion cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus pellach.

Bydd y sylwadau a gawn ymgynghoriadau yn y dyfodol hefyd yn cael eu defnyddio i ddatblygu ein cynigion terfynol.

Bydd yr holl sylwadau a gawn yn ystod yr ymgynghoriadau hyn yn cael eu hadolygu fel bod modd cynnwys y pwnc dan sylw – a'n hymatebion – yn Adroddiad yr Ymgynghoriad.

Bydd yr adroddiad hwn yn rhan o'n cais cynllunio, a elwir yn Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO).

Gwybodaeth am Mona - ein seilwaith ar y môr

Bydd ein seilwaith ar y môr yn cynnwys tyrbinau, is-orsafoedd ar y môr a cheblau. Mae angen i ni hefyd nodi lleoliad y ceblau ar y tir (y pwynt lle mae'r ceblau sy'n cludo'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu yn cyrraedd y lan).

Mae'r ardal rydym yn ei gwerthuso ar hyn o bryd i ganfod lleoliad posibl ein llwybr ceblau ar y môr yn cael ei adnabod fel Ardal Chwilio Cwmpasu'r Seilwaith Trawsyrru ar y Môr, a ddangosir ar y map isod.

Byddem yn croesawu sylwadau ar y maes chwilio cwmpasu hwn a allai ein helpu wrth i ni benderfynu ar y ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu ar leoliad ein seilwaith ar y môr. Gallai'r rhain gynnwys sylwadau ar unrhyw beth o ecoleg forol i lwybrau llongau neu effaith weledol ar y morlun.

Tyrbinau

Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar yn y broses i wybod maint a nifer y tyrbinau sydd eu hangen, ond rydym yn gweithio i ddatblygu'r wybodaeth honno ar gyfer cam nesaf ein hymgyngoriad.


Sut rydym yn adeiladu fferm wynt ar y môr

Mae'n rhy gynnar i ni wybod yn union sut y byddwn yn adeiladu'r fferm wynt. Rhan bwysig o'n gwaith technegol fydd datblygu'r cynlluniau hyn. Bydd eich adborth yn ein helpu i ddatblygu cynlluniau adeiladu sy'n cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr ardal gyfagos.




Fel arfer, er mwyn adeiladu'r fferm wynt bydd angen i ni wneud amrywiaeth o weithgareddau adeiladu:

- Cyn ei gosod, efallai y bydd angen rhywfaint o waith paratoi ar wely'r môr fel clirio tywod a chlogfeini er mwyn creu llwybr ar gyfer y cebl dan y môr a sylfeini'r tyrbinau.
- Yna caiff sylfeini'r tyrbinau gwynt a'r is-orsaf eu gosod, cyn i dŵr, nasél a llafnau'r tyrbinau gwynt, a strwythur yr is-orsaf gael eu gosod ar ben y sylfeini.
- Bydd ceblau'n cael eu gosod ar wely'r môr rhwng pob tyrbinau gwynt, rhwng y tyrbinau gwynt a'r is-orsafoedd ar y môr; a rhwng yr is-orsafoedd ar y môr a'r lan. Bydd hyn yn cynnwys nifer o wahanol fathau o longau, gan gynnwys y rheini sydd â chraeniau wedi'u gosod, llongau cynnal a llongau ceblau.

- Ar y lanfa, bydd y cebl yn cael ei gludo ar y lan gan ddefnyddio dull sy'n addas ar gyfer y lleoliad penodol sydd wedi cael ei ddewis. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys drilio cyfeiriadol llorweddol o dan glogwyni arfordirol neu osod ffos dros dro drwy'r traeth.
- Bydd yr is-orsaf ar y tir yn cael ei hadeiladu gan ddefnyddio technegau adeiladu traddodiadol.



Allwedd:

-  Fferm wynt ar y môr Mona
-  Ardal chwilio trosglwyddiad cwmpasu seilwaith ar y môr
-  Ardal chwilio trosglwyddiad cwmpasu seilwaith ar y tir

Asesiadau amgylcheddol a thechnegol

Mae manteision amgylcheddol hirdymor cynhyrchu ynni carbon isel yn glir, felly mae angen i ni sicrhau bod unrhyw effeithiau tymor byr sy'n gysylltiedig â'n prosiect yn cael eu nodi, eu hosgoi, eu rheoli a'u lleihau.



Adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Cyflwynir y ddogfen hon i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w hystyried. Mae'n nodi'r wybodaeth rydym yn bwriadu ei hystyried a'i hasesu fel rhan o'n Hasesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'n sicrhau bod yr Arolygiaeth Gynllunio a rhanddeiliaid pwysig eraill yn deall ac yn cytuno â'r meysydd y byddwn yn eu hasesu. Mae rhagor o wybodaeth am Adroddiadau Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar gael yma www.gov.uk/guidance/environmental-impact-assessment



Byddwn yn nodi'r effeithiau hyn drwy gynnal asesiadau amgylcheddol a thechnegol manwl ar bob cam o'n gwaith cynllunio, dylunio ac adeiladu. Byddwn yn edrych ar bob agwedd ar yr amgylchedd a nodir yn yr Adroddiad Cwmpasu, gan gynnwys effeithiau gweledol, ecoleg, traffig, sŵn ac yr effeithiau ar bobl a'r amgylchedd morol.

Ers dechrau cynllunio ein prosiect, rydym wedi bod yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol i asesu a deall cyfansoddiad unigryw'r ardaloedd byddwn yn gweithio ynddynt.

Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i'r prosiect ddatblygu a byddwn yn ymgysylltu â nifer fawr o randdeiliaid amgylcheddol er mwyn i'n prosiect allu elwa o'u gwybodaeth a'u harbenigedd hefyd.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi ein Hadroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Mae'r adroddiad yn nodi effeithiau posibl ar sail ein hasesiadau rhagarweiniol o'r amodau amgylcheddol rydym yn debygol o ddod ar eu traws yn ardal astudiaeth Prosiect Gwynt ar y Môr Mona.

Ar ôl derbyn y Farn Gwmpasu, byddwn yn llunio Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR). Bydd y ddogfen hon yn rhan o ymgynghoriad pellach a byddwn yn croesawu adborth gan y gymuned ar yr adroddiad.

Bydd y PEIR yn rhoi cipolwg cychwynnol ar ein hasesiad o'r prosiect, gan gynnwys disgrifiadau o'r effeithiau amgylcheddol tebygol a sut gallem fonitro'r gwaith o liniaru'r effeithiau hyn. Bydd yr adborth a gawn ar ein PEIR yn ein galluogi i fireinio ein cynlluniau cyn cyflwyno ein cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio.

I gael rhagor o wybodaeth am broses gynllunio'r DCO, ewch i www.gov.uk/guidance/guidance-on-procedural-requirements-for-major-infrastructure-projects





Cefnogi'r economi leol, rhanbarthol a chenedlaethol

Bydd ein cynigion ar gyfer Morgan a Mona yn datgloi manteision economaidd sylweddol, o ran y swyddi y byddwn yn eu creu a'r cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a fydd ar gael i fusnesau yng Nghymru a Lloegr.

Swyddi

Wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau'n fanylach, bydd graddfa'r hwb economaidd hwn yn dod yn gliriach – ond gwyddom eisoes y byddwn yn creu ac yn cefnogi tua 3,420 o swyddi i gyd yn ystod camau gwahanol ein prosiect. Mae hyn yn torri i lawr i:

710 o swyddi

yn ystod y gwaith cynllunio a dylunio, gan gynhyrchu cyflogau gwerth tua £19.7m bob blwyddyn.

2,120 o swyddi

yn ystod y cyfnod adeiladu, gan gynhyrchu cyflogau gwerth tua £74.8m bob blwyddyn.

590 o swyddi

yn ystod gweithrediadau, gan gynhyrchu cyflogau gwerth tua £27.6m bob blwyddyn.

Cadwyn gyflenwi

Rydym yn gwybod bod prosiectau gwynt ar y môr yn dod â manteision sylweddol i'w cymunedau lleol ac rydym yn credu ei bod hi'n eithriadol o bwysig bod y gadwyn gyflenwi leol yn cyfrannu at y prosiect hwn hefyd.

Rydym wedi lansio porth cyflenwyr pwrpasol lle gall cwmnïau lleol baru eu sgiliau ag anghenion y prosiectau. Mae'r porth yn galluogi cwmnïau o bob maint i gofrestru eu diddordeb ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

Mae'r prosiect yn annog cyflenwyr yn y DU i gofrestru eu diddordeb yn www.enbw-bp.com/suppliers yn enwedig y rheini sydd â chysylltiadau ar draws gogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr.

Porthladdoedd a harbws

Rydym yn ymgysylltu â phorthladdoedd a harbws o amgylch Môr Iwerddon a allai gefnogi gweithgareddau adeiladu ac yna gweithredu a chynnal a chadw'r ffermydd gwynt yn y pen draw.

Sut i gymryd rhan

Gallwch rannu adborth drwy:



Defnyddio gwefan y prosiect:

www.enbw-bp.com/morgan-and-mona

Cyflwyno adborth ar ein gwefan gan ddefnyddio ein ffurflen adborth ar-lein a'n map rhyngweithiol. Mae'r adnodd mapio yn caniatáu i chi adael sylwadau mewn lleoliadau penodol.



Anfon e-bost at:

info@morganandmona.com

Rydym yn croesawu pob adborth ac unrhyw gwestiynau sydd gennych am y prosiect.



Anfon adborth ysgrifenedig i'n cyfeiriad rhadbost:

Freepost MORGAN AND MONA

Gallwch ysgrifennu llythyr atom neu anfon ffurflenni adborth ar ffurf copi caled, a fydd ar gael mewn digwyddiadau neu ar gais. Does dim angen stamp.



Gallwch lwytho deunyddiau'r ymgynghoriad yma:

www.enbw-bp.com/morgan-and-mona/



Dewch i gwrdd â'r tîm

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau cyhoeddus. Mae'r rhain yn ffordd wych o gwrdd â'n tîm, dysgu am y prosiect a gofyn unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.



Digwyddiadau ymgynghori

Dyddiad	Amser	Lleoliad
Dydd Mercher 29 Mehefin	3pm- 8pm	Venue Cymru, Llandudno LL30 1BB
Dydd Iau 7 Gorffennaf	2pm- 7pm	Prifysgol Glyndŵr, Llanelwy Clwyd LL17 0JD
Dydd Gwener 8 Gorffennaf	2pm- 6:30pm	Neuadd Bentref Llanddulas Abergele LL22 8FH

Digwyddiadau achlysurol

Ochr yn ochr â'n harddangosfeydd cyhoeddus, bydd aelodau o'n tîm hefyd yn crwydro o amgylch y cymunedau, er mwyn darparu gwybodaeth am y prosiect ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych chi.



Digwyddiadau achlysurol

Dyddiad	Amser	Lleoliad
Dydd Mercher 29 Mehefin	10am- 2pm	Co-op Amlwch, Lon Goch, Amlwch LL68 9AL
Dydd Sadwrn 9 Gorffennaf	11am- 2pm	Canolfan Groeso Rhyl, The Village, West Parade, Y Rhyl LL18 1HZ
Dydd Gwener 15 Gorffennaf	11am- 2pm	Maes parcio Parc Dŵr Sandcastle Blackpool, Promenâd, Blackpool FY4 1BB

Digwyddiad ar-lein

Rydym ni'n cynnal gweminar lle bydd gwybodaeth am y prosiect yn cael ei chyflwyno a bydd y rhai sy'n bresennol yn gallu gofyn gwestiynau i dîm y prosiect. Ewch i wefan y prosiect i gofrestru i gymryd rhan.



Dydd Mawrth 12 Gorffennaf 6:30pm-8pm

Amserlen ddangosol (adeg cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022)

2022

Haf 2022

Cam cyntaf yr ymgynghoriad ar fferm wynt ar y môr Mona

Hydref 2022

Gwaith technegol ac amgylcheddol parhaus.

Cam cyntaf yr ymgynghoriad ar fferm wynt ar y môr Morgan.

Gaeaf 2022 / 2023

Ail gam yr ymgynghoriad

2023 & 2024

Gaeaf 2023 / 2024

Ceisiadau a gyflwynir ar gyfer Gorchymyn Cydsyniad Datblygu a thrwyddedau eraill

2025

Disgwyl penderfyniad ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu gan yr Ysgrifennydd Gwladol

2026

Penderfyniad Buddsoddi Terfynol Disgwyliedig

2027

Cysylltiad grid cyntaf ar gyfer comisiynu ceblau allforio pŵer ar gyfer is-orsafoedd ar y môr

2028

Dyddiad Dechrau Disgwyliedig – Dyddiad Gweithredu Masnachol(COD)

Ail gam yr ymgynghoriad

Bydd cyfle arall i chi ddweud eich dweud ar gynlluniau manylach ar gyfer y prosiect, pan fyddwn yn cynnal ail ymgynghoriad statudol ar ddiwedd 2022 a dechrau 2023.

Beth nesaf

Ar ôl i gam cyntaf ein hymgyngghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried yr holl adborth rydym wedi'i gael ac, ynghyd â'n hastudiaethau technegol parhaus, yn defnyddio'r adborth hwnnw i'n helpu i siapio ein cynigion.



4 broses ymgeisio

Oherwydd faint o drydan a gynhyrchir gan Morgan a Mona, mae'r ddau yn cael eu hystyried yn Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Oherwydd hynny, bydd gan y ddau brosiect geisiadau am gydsyniad datblygu ar wahân.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn gwneud cais i'r Arolygiaeth Gynllunio am gydsyniad datblygu, sy'n cael ei alw'n Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) yn yr achos hwn.

Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Fusnes, Ynni, a Strategaeth Ddiwydiannol fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch dyfarnu'r DCO.

Fel rhan o'r broses DCO, byddwn yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, cymunedau lleol ac awdurdodau lleol. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy gydol y cam cyn ymgeisio yn ystod ein dwy rownd o ymgynghori â'r cyhoedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses DCO ar gael yma: [infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/cy/application-process](https://www.planninginspectorate.gov.uk/cy/application-process)



Partners in UK offshore wind



Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan
www.enbw-bp.com neu defnyddiwch y cod QR hwn.

info@morganandmona.com



Freepost **MORGAN AND MONA**



0800 860 6263